- Mae gormod o bobl yn cael eu rhoi dan glo; yn aml am droseddau llai difrifol ac mae nifer y plant a'r oedolion mewn carcharadau'n parhau i gynyddu.
- Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc o Gymru'n cael eu cadw dan glo, yn Lloegr, ymhell o atael eu teulu a'r diwylliant Cymreig.



**Yn 2007, mae'r Cyrff Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth y D.U.:**

- Edrych eto ar ba oed y dylai plant a phobl ifanc gael eu dal yn gyfrifol am eu throseddau.
- Gwneud yn siŵr mai dim ond pan fydd pob opsiwn arall wedi methu y bydd plant a phobl ifanc yn cael eu rhoi dan glo a hynny am y cyfnod byrraf.
- Os oes rhaid rhoi plant a phobl ifanc dan glo, dylai hynny fod yn y lle gorau i'w helpu i ddatrys eu problemau.

**Cam-fanteisio'n rhywiol**

**Dyweddod y Cenhedloedd Unedig:** Adlygwch y gyfrath yng nghyswilt plant a phobl sy'n dioddef cam-fanteisio rhywiol am arian. Dewch i wybod mwy am eu hanghenion a rhoch fwy o help iddyn nhw.

**COCH**

Mae plant a phobl ifanc sy'n dioddef cam-fanteisio rhywiol am arian dal i allu cael eu harestio a'u cymryd i'r llys. Dylid rhoi help a chefnogaeth i'r plant a'r pobl ifanc hyn, yn hytrach na'u trin fel troseddwy. Nid yw pobl ifanc, yn enwedig rhai rhwng 16 ac 18 oed, yn cael eu hamddiffyn rhag y math hwn o gamdriniaeth.

**Yn 2007, mae'r Cyfrif Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth y D.U.:**

- Newid y gyfrath sy'n caniatáu i blant gael eu trin fel troseddwy'r os ydynt yn dioddef cam-fanteisio rhywiol am arian.

Mae elusen blant a rhai cynghorau lleol wedi cynnal astudiaeth o anghenion pobl ifanc sy'n dioddef cam-fanteisio rhywiol am arian. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi archwilio i wneud yn siŵr bod gan bob cyngor gynlluniau ynglŷn â sut i'w gwarchod ac edrych ar eu hól. Fe wnaethon nhw ddaroganfod bod llawer o gynghorau lleol ddim yn deall y peryglon y mae plant sy'n dioddef cam-fanteisio rhywiol yn eu hwynedu.

Mewn rhai llefydd, mae cynghorau wedi hyfforddi eu gweithwyr i ddarparu'r math priodol o gymorth a chefnogaeth.

**Yn 2007, mae'r Cyfrif Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan weithio gyda chynghorau lleol ac eraill:**

- Wneud mwy i ganfod a yw plant a phobl ifanc wedi eu denu i mewn i'r wlad hon er mwyn cam-fanteisio arnynt, a'u helpu.
- Gwneud cynlluniau gwell a rhoi arian o'r neillt i amddiffyn pobl ifanc sydd mewn perygl o ddioddef cam-fanteisio rhywiol.

**OREN**



**Teithwyr o dras Romani, Gwyddelig a Sipsiwn**

**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig:** Dylech drin plant a phobl ifanc o dras Romani, Gwyddelig a Sipsiwn yn gyfartal. Gwneuch gynllun i wella pethau.

**OREN**

Nid yw plant a phobl ifanc o dras Romani, Gwyddelig a Sipsiwn yn cael eu trin yn gyfartal.

Mae babanod yn fwy tebygol o farw o hyd. Mae problemau gyda gorffen addysg. Mae angen llefydd gwell i fyw. Mae plant a phobl ifanc yn gorfod delio â bwilio hiliol bob dydd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwrandao ar, a derbyn, holl argymhellion plant a phobl ifanc Sipsiwn-Teithwyr. Mae'n nhw wedi defnyddio'r syniadau hyn i greu cynllun gweithredu am iechyd, addysg a llefy.

Mae hwn yn ddechrau da, ond dydy pethau ddim yn newid yn ddigon cyflym.

**Yn 2007, mae'r Cyfrif Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan weithio gyda chynghorau lleol ac eraill:**

- Wneud yn siŵr bod prosiectau addysg yn cael digon o arian 'nawr ac i'r dyfodol.
- Rhoi chefnogaeth a hyfforddiant a gwneud yn siŵr bod ysgolion yn mynd i'r afael â bwilio hiliol.
- Gweithredu holl argymhellion Adolygiad y Cynulliad Cenedlaethol o Sipsiwn-Teithwyr. Setydlu ffyrdd i roi llais i Sipsiwn-Teithwyr ifanc am wasanaethau.

**Yn 2007, mae'r Cyfrif Anllywodraethol yn credu y dylai'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:**

- Wneud yn siŵr bod llywodraeth yn trin plant a phobl ifanc Sipsiwn-Teithwyr yn gyfartal.



# Hawl i warchodaeth arbennig

Erthyglau CCUHP: 22, 30, 32-36, 37b-d, 39 a 40

Mae'r hawliau hyn yn rhoi gwarchodaeth arbennig i blant a phobl ifanc, i ba bynnag wlad y byddant yn symud. Maen nhw'n dweud y dylid parchu ac amddiffyn plant a phobl ifanc, a rhoi llais iddynt mewn penderfyniadau.

Plant sy'n ffoduriaid ac yn geiswyr lloches



**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig: Stopiwch roi plant a phobl ifanc dan 18 sy'n ceisio lloches dan glo.**

Gwneuch yn siŵr bod plant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches yn cael yr holl hawliau sy'n ddyledus iddynt - yn enwedig yr hawl i addysg ac iechyd.

Gwneuch yn siŵr bod plant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches yn cael penderfyniad cynnar heb orfod symud o gwmpas. Dylai pob ceisydd lloches ifanc sy'n cyrraedd y D.U. ar ei ben ei hun gael gwarcheiddad sy'n oedolyn.

COCH

Mae plant a phobl ifanc sy'n cyrraedd y wlad hon i geisio lloches yn cael eu trin lawer gwaeth, ac yn cael llai o hawliau, na phlant a phobl ifanc sydd eisoes yn byw yma. Mae Llywodraeth y D.U. yn dal i gloi llawer o'r plant a'r bobl ifanc sydd newydd gyrraedd y wlad mewn canolfan gadw. Bydd y rheolau lloches newydd a gyflwynwyd gan Llywodraeth y D.U. yn gwaethygu'r sefyllfa. Does gan geiswyr lloches ifanc sydd yma ar eu pen eu hunain ddim gwarcheiddad sy'n oedolyn i warchod eu hawliau, er bod y CŴ yn dweud y dylent gael un. Yn 2007, mae'r Cyrrff Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth y D.U.:

- Ro'i gorau i osod plant a phobl ifanc sy'n geiswyr lloches mewn canolfan gadw.
- Dileu ar unwaith y neilltuedd sy'n rhwystro plant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches rhag cael yr un hawliau â phlant sy'n ddinasyddion y D.U.
- Gwneud yn siŵr bod pob cyfrath a pholisi am fewntfudo yn gyson â hawliau plant.

OREN



- Wneud yn siŵr bod pob plentyn a pherson ifanc sy'n ceisio lloches yn gallu defnyddio gwasanaethau sylfaenol fel iechyd, addysg ac iechyd meddwl.

Yn 2007, mae'r Cyrrff Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dechrau cynlluniau i helpu plant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches yng Nghymru i gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae angen i ni yn awr ddal ati i wneud yn siŵr bod bywyd yn gwella i blant sy'n ceisio lloches ym mhob rhan o Gymru.

- Gwneud yn siŵr bod gan bob ceisiwr lloches ifanc sydd yma yn y D.U. ar ei ben ei hun warcheiddad i'w amddiffyn.

**Chwarae**

**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig: DIM BYD am chwarae ... ond mae rhywberth pwysig iawn wedi digwydd yng Nghymru.**

**OREN**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno Polisi Chwarae Cenedlaethol ac mae hyn yn ffantastig! Mae'r polisi'n dweud bod chwarae'n un o hawliau plant. Mae chwarae'n bwysig iawn, iawn, oherwydd ei fod yn helpu plant a phobl ifanc i ddod yn iach ac mae'n datblygu eu galluedd.

Mae angen i ni yn awr barhau i wneud yn siŵr bod cynghorau lleol yn parhau Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mhob cwr o Gymru.

**Yn 2007, mae'r Cyfrif Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan weithio gyda chynghorau lleol ac eraill:**

- Gynnal adolygiad 5-mllynedd i weld pa mor dda mae'n cyflawni'r strategaeth chwarae genedlaethol.
- Ei gwneud hi'n gyfraith bod rhaid i gynghorau ddod o hyd i lefydd i blant chwarae.
- Gwneud mwy o ymchwil i wneud yn siŵr bod gan blant leodd i chwarae, yn enwedig lleodd ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a phlant du ac o gefndir lleiafrif ethnig.



**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig: Gyda chymorth syniadau gan blant a phobl ifanc, stopiwch fwllo a thrais mewn ysgolion.**

**OREN**

Yng Nghymru, mae strategaeth (cynlluniau a pholisiau) gwrth-fwllo ar gael yn awr. Ond mae llawer o blant a phobl ifanc wedi dweud:

- Bwllo sy'n eich poeni chi! fwyaf.

**Yn 2007, mae'r Cyfrif Anllywodraethol yng Nghymru yn credu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan weithio gyda chynghorau lleol ac eraill:**

- Wneud yn siŵr bod polisiau gwrth-fwllo wir yn gweithio mewn ysgolion. Cantod a ydyn nhw'n gweithio trwy holi plant a phobl ifanc am fwllo yng Nghymru, bob blwyddyn.



**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig: Dysgwch blant am hawliau plant a hawliau dynol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.**

**OREN**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwriadu dysgu plant a phobl ifanc am eu hawliau mewn dosbarthiadau Addysg Bersoniol a Chymdeithasol (ABCh) ar gyfer plant a phobl ifanc 7-19 oed. Ond mae angen cynnwys hawliau mewn pynciau eraill ac mewn hyfforddiant athrawon.

**Yn 2007, mae'r Cyfrif Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, cynghorau lleol ac eraill:**

- Wneud yn siŵr bod ABCh yn cael ei gwneud yn dda a chynnwys hawliau plant ym mhob elfen o addysg ysgolion a hyfforddiant athrawon.



**Chwarae**

**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig: DIM BYD am chwarae ... ond mae rhywberth pwysig iawn wedi digwydd yng Nghymru.**

**OREN**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwriadu dysgu plant a phobl ifanc am eu hawliau mewn dosbarthiadau Addysg Bersoniol a Chymdeithasol (ABCh) ar gyfer plant a phobl ifanc 7-19 oed. Ond mae angen cynnwys hawliau mewn pynciau eraill ac mewn hyfforddiant athrawon.

**Yn 2007, mae'r Cyfrif Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, cynghorau lleol ac eraill:**

- Wneud yn siŵr bod ABCh yn cael ei gwneud yn dda a chynnwys hawliau plant ym mhob elfen o addysg ysgolion a hyfforddiant athrawon.

OREN

OREN

# Addysg, hamdden a gweithgareddau

Erthyglau CSUHP: 28, 29 a 31

Mae'r rhain yn hawliau i addysg sy'n parhau plant a phobl ifanc ac sy'n addas ar gyfer eu personoliaeth a'u talentau. Maen nhw'n cynnwys yr hawl i ymlacio, chwarae a mwynhau gweithgareddau hamdden.

## Addysg

**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig:** Gwneud yn siŵr bod pob cyfrath yn cefnogi hawl plant a phobl ifanc i gael llais, gan gynnwys mewn addysg ac mewn prosesau disgyblu ysgolion.



Yng Nghymru, rhaid i ysgolion sefydlu cynghorau ysgol, a rhaid i gynghorau lleoli ofyn am farn pobl ifanc ynglŷn â'u hysgol a gwasanaethau eraill. Mae llawer o ond mwy eto i'w wneud i sicrhau bod pob plentyn ddysgyblion yn teimlo bod rhywun yn gwrandao arnynt, a pherson ifanc yn cael llais.

**Yn 2007, mae'r Cyfrif Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda chynghorau lleol ac eraill:**

- Wneud yn siŵr bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle i gyfranogi mewn ysgolion.
- Dechrau cynnwys disgyblion mewn penderfyniadau am staff, dysgu ac arolygu ysgolion.

OREN

**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig:** Gwariwch fwy o arian ar addysg.



Mae mwy yn cael ei wario ar addysg, gan gynnwys ar ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig. Mae angen i Lywodraeth Cymru wneud yn siŵr bod elfennau ei gwaith yn gysylltiedig â'i gilydd, yn enwedig gydag addysg a thlod.

- Barhau i roi mwy o arian tuag at leihau anhewgch rhwng gwahanol grwpiau o blant a chysylltu hyn â beth mae adrannau eraill o Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud.

**Yn 2007, mae'r Cyfrif Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda chynghorau lleol ac eraill:**

**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig:** Gwneud addysg yn fwy cyfartal gydag addysg o safon i bawb.



Dydy rhai grwpiau o blant a phobl ifanc ddim yn gwneud cystal yn yr ysgol, neu ddim yn cael digon o addysg, gan gynnwys:

OREN

- Mamau ifanc.
  - Bechgyn o deuluoedd dosbarth gwaith.
  - Rhai plant o deuluoedd du ac ethnig.
  - Plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.
  - Plant a phobl ifanc mewn carchar.
  - Plant a phobl ifanc sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol.
- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud peth gwaith da ar ran plant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd tlawd ac mae ganddi hefyd gynlluniau ar droed i wella addysg pob plentyn a pherson ifanc difreintiedig.

**Yn 2007, mae'r Cyfrif Anllywodraethol yng Nghymru yn credu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan weithio gyda chynghorau lleol ac eraill:**

- Ganolbwyntio ar wella addysg plant a phobl ifanc sy'n dioddef gwahaniaethu yn eu herbyn.
- Lleihau nifer y gwaharddiadau a darparu addysg dda i blant a phobl ifanc sy'n cael eu gwahardd
- Gwneud yn siŵr bod y cynlluniau ar gyfer gwel addysg i blant mewn carchar, a phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, wir yn gweithio.

**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig:** Mae'n rhaid i'r D.U. wneud ffinc a budd-daliadau i bobl ifanc 16 ac 17 oed.



OREN

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi prosiectau i roi teryn ar ddigartrefedd a phrosiectau ar gyfer pobl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal.

Ond mae angen gwneud mwy, gan fod pobl ifanc dal yn cael eu hunain heb unrhyw gefnogaeth a nunlle i fyw.

**Yn 2007, mae'r Cydff Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

- Wario mwy ar wasanaethau cefnogi pobl ddigartref a thai diogel.

Mae pobl ifanc 16 ac 17 oed yn cael llai o arian i fyw arno. Os ydych chi'n sengl a dan 25 oed, rydych yn cael llai o help gyda chostau tai.

**Yn 2007, mae'r Cydff Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth y D.U.:**

- Roi teryn ar y cyfyngiad Rhent Ystafell Sengl ar fudd-dal tai i bobl dan 25 oed.



COCH



**Dywedodd y Cenhedloedd Unedig:** Rhaid i'r D.U. wneud popeth o fewn ei gallu i ddileu tiodi plant.



OREN

Y D.U. yw un o wledydd cyfoethoga'r byd, a dylid gwneud rhywbeth ar fyrder ar ran plant a phobl ifanc sy'n cael eu magu mewn tiodi.

Er bod tiodi plant wedi gostwng yng Nghymru, mae 28% o blant yn dal yn byw mewn tiodi. Ac mae mwy nag un o bob 10 plentyn yng Nghymru'n byw mewn tiodi difrifol.

Mae gan Llywodraeth Cynulliad Cymru gynlluniau i fynd i'r afael â thiodi plant. Mae cymorth ar gael mewn ardaloedd tiawd ond nid yw hynny'n helpu teuluoedd sy'n byw y tu allan i'r ardaloedd hyn.

**Yn 2007, mae'r Cydff Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan weithio gyda chynghorau lleol ac eraill:**

- Wneud mwy i helpu pob plentyn tiawd.
- Meddwl am anghenion trwmiaeth, chwarae a hamdden plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tiodi.
- Canfod ffyrdd i weld pwy yw'r plant tiawt, a rhoi cymorth i'r rhain sydd fwyaf ei angen.

Does gan Gymru ddim pŵer i newid budd-daliadau na threthi. Dylai llywodraeth y D.U. wneud mwy i wneud yn siŵr bod y system budd-daliadau a threthi yn helpu'r plant tiawt.

**Yn 2007, mae'r Cydff Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth y D.U.:**

- Wario mwy o arian i helpu pobl sy'n gweithio ar incwm isel a'r bobl hynny sydd ddim yn gallu gweithio.



COCH



Plant a phobl ifanc anabl



COCH

**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig: DDim BYD am blant a phobl ifanc anabl! ... Rydyn ni'n credu y dylen nhw fod wedi, oherwydd bod y bobl ifanc hyn yn wynebu problemau go iawn yng Nghymru.**

Mewn rhai thannau o Gymru, nid oes digon yn cael ei wneud i gwrdd ag anghenion llawer o blant a phobl ifanc anabl.

Yn 2005, gosododd Llywodraeth Cynulliad Cymru safonau newydd ar gyfer gwasanaethau i blant a phobl ifanc anabl. Ond ni roddwyd unrhyw arian ychwanegol. Bydd yn 8 mlynedd arall cyn y bydd unrhyw un yn gwybod a gyrrhaeddwyd y safonau newydd.

Nid yw plant a phobl ifanc anabl yn cael cyfle cyfartal na digon o gefnogaeth ym myd gwaith, addysg, hyfforddiant a chyfrannu at wneud penderfyniadau. Mae bwlio dal yn broblem aruthrol ac mae ar blant anabl ofn dweud wrth rywun eu bod yn cael eu bwlio rhag ofn iddynt wneud pethau'n waeth.

Yn 2007, mae'r Cyrtff Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan weithio gyda chynghorau lleol ac eraill:

- Wella'r holl wasanaethau a chefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc anabl wrth iddynt dyfu.
- Casglu gwell gwybodaeth am wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc anabl.

Pobl ifanc lesbiaidd, hoyw, a deurywiol



ORWEN

**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig: Gwnewch yn siŵr bod digon o wybodaeth a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc lesbiaidd a hoyw. Diddymwch gyfratrith Adran 28.**


Ers 1998, mae'n rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru wneud yn siŵr ei bod yn cefnogi cydraddoldeb i bawb. Yn 2002, catodd Cymru wared â'r gyfratrith a oedd yn atal rhai ysgolion rhag dysgu am fod yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol (neu LGB).

- Ond
- Mae llawer o bobl LGB yn cael eu bwlio mewn ysgolion.
  - Mae llawer o bobl ifanc LGB yn cael eu bwlio mewn ysgolion.

Mae ysgolion wedi cael arweiniad am wrth-fwlio, ond dydyn ni ddim yn gwybod a yw hyn yn gweithio.

Yn 2007, mae'r Cyrtff Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan weithio gyda chynghorau lleol ac eraill:

- Gynyddu nifer y grwpiau cefnogi sydd ar gael ar gyfer pobl ifanc LGB.
- Gwneud yn siŵr bod cynlluniau gwrth-fwlio'n gweithio yn ysgolion a chollegau Cymru.
- Gwneud yn siŵr bod staff a llywodraethwyr ysgolion wedi eu hyfforddi ac yn hyderus i hyrwyddo hawliau cyfartal i bobl ifanc LGB.





# Iechyd a lles

Erthyglau CCUHP: 6, 18.3, 23, 24, 26, a 27

Mae'r hawliau hyn yno i gefnogi pob plentyn a pherson ifanc i ddatblygu a thyfu i'w llawn botensial. Mae angen cymorth ychwanegol ar rai plant a phobl ifanc oherwydd gwahaniaethu, tloedi neu fod eu hanghenion yn cael eu hanwyblyddu.

## Iechyd



COCH

**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig: Y dylat'r D.U. wella gwasanaethau iechyd meddwl a chwmsela ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau.**

Nid oes unrhyw wybodaeth i ddwued a yw iechyd meddwl plant a phobl ifanc wedi gwella neu waethgu.


Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu gwella gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc, ond nid yw hi wedi cael digon o arian.

Mae pobl ifanc 16-17 oed sydd ddim mewn addysg, mewn thai rhannau o Gymru, yn cael trafwrth cael llwybr at wasanaethau iechyd meddwl.

Mae pobl ifanc eisiau cael llwybr at well gwybodaeth, cefnogaeth a staff sydd wedi'u hyfforddi.

Yn 2007, mae'r Gyrrff Anllywodraethol yn credu y dylai gyrrff iechyd llywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill:

- Roi mwy o arian i wasanaethau iechyd meddwl fel bod plant agored i niwed yn gallu cael llwybr at well gwybodaeth, cefnogaeth a staff sydd wedi'u hyfforddi.
- Atal arferion sy'n rhoi pobl ifanc mewn wardiau iechyd meddwl ar gyfer oedolion mewn ysbtyai.



**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig: Y dylat'r D.U. leihau beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau a chefnogi mamau dan 16 oed.**

OREN



Bu gostyngiad mawr yn nifer y merched yn eu harddegau sy'n feichlog, ond mae dal yn uwch yng Nghymru nag yng ngwledydd eraill gogledd Ewrop. Mae cynlluniau i ddarparu gwell addysg rhyw a gwasanaethau iechyd rhyw i blant a phobl ifanc a gwell gofal i fabanod mamau yn eu harddegau. Ond nid oes digon o wasanaethau, meddygon nac unedau ysbty sy'n arbennigo ar weithio gyda phobl ifanc yn eu harddegau a mamau ifanc.

Yn 2007, mae'r Gyrrff Anllywodraethol yn credu y dylai llywodraeth Cynulliad Cymru, Cynghorau Lleol ac eraill:

- Wneud yn siŵr bod plant mewn ysgolion cynradd yn cael addysg rhyw well, hawdd ei deall, yn enwedig y rheini sydd fwyaf agored i risg.
- Setydlu mwy o wasanaethau iechyd rhyw arbennigol ar gyfer plant a phobl ifanc.



**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig:** Darparwch well gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu cam-drin neu heb dderbyn gofal.



COCH

Mae amseroedd aros am gymorth arbenigol yn llawer rhy hir:

Gwarant tymor byr yn unig sydd ar arian i dalu am wasanaethau cwnsela ac mae'n bosib nad oes digon o gwselwyr.

Mae'n beth da bod Llywodraeth Cymru'n mynd i gyflwyno cwnsela mewn ysgolion, ond mae angen gwasanaethau cwnsela ar blant a phobl ifanc sydd ddim yn mynd i'r ysgol hefyd.

**Yn 2007, mae'r Cyrff Anllywodraethol yn credu y** dyfai Llywodraeth Cymru:

- Wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu cam-drin yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i wella, ble bynnag maen nhw'n byw.

**Plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal**

(plant a phobl ifanc yw'r rhain sydd, o bosib, yn byw gyda rhieni maeth neu mewn cartref plant)

**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig:** Gwnwch yn siŵr bod cyfreithiau'n cadw pob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal yn ddiogel.



OREN

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwario arian a gwned cylluniau gwell ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Ond erbyn hyn:

- Mae yna fwy o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Ychydig o wellianau a fu mewn addysg, gwaith a hyfforddiant.

- Does dim digon o wasanaethau iechyd, cefnogaeth ac eiriolaeth (mae eiriolaeth yn golygu cyngor a cefnogaeth annibynnol i ddatgan eich barn, neu gwyno).

**Yn 2007, mae'r Cyrff Anllywodraethol yn credu y** dyfai Llywodraeth Cymru weithio gyda chynghorau lleol i:

- Wneud yn siŵr bod mwy o lefydd, a llefydd gwell, i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal fyw ar ôl gadael gofal.
- Gwneud yn siŵr nad yw plant a phobl ifanc yn cael eu symud o gwmpas gymaint.
- Gwellia gwasanaethau iechyd, addysg, cymdeithasol ac eiriolaeth.

# Amgylchedd teulu a gofal

Erthyglau CCUHP: 5, 9, 10, 11, 18.1, 18.2, 19, 20, 21, 27.4 a 39

Mae'r hawliau hyn yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yn cael y gofal priodol gan eu teulu, mewn ffordd ddiogel a chariadus. Os nad ydy'r plant neu bobl ifanc yn gallu byw gyda'u teulu, rhaid i'r llywodraeth wneud yn siwr eu bod yn derbyn gofal da. Mae'r hawliau hyn yn dweud hefyd bod rhaid atal camdriniaeth a thrais.

--- Amddiffyn plant a phobl ifanc ---



**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd marwolethau plant a thrais yn erbyn plant a phobl ifanc.**

OREN

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud cynlluniau da ac mae eisiau cael pob gwasanaeth i weithio'n well gyda'i gilydd. Setydlwyd grwpiau lleol newydd i archwilio diogelwch plant a phobl ifanc ond mae'n rhy gynnar dweud a yw'r rhain yn gweithio'n dda.

**Yn 2007, mae'r Cyrff Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

- Fod yn gliriach am y cynlluniau i gael pawb yn gweithio gyda'i gilydd i amddiffyn plant a phobl ifanc.



**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd bob trosedd yn erbyn plant a phobl ifanc.**

COCH

- Nid yw Llywodraeth y D.U. wedi gwneud hyn.
- Yn 2007, mae'r Cyrff Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth y D.U.:
- Wneud yn siwr bod trais yn erbyn plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael ei gofnodi.



OREN

**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig: Cynllunwch systemau haws ar gyfer riportio ac archwilio cam-drin plant. Gwnewch yn siwr bod y system hon yn amddiffyn hawliau a phreifatrwydd plant a phobl ifanc.**

Yng Nghymru, ceir gwell cyngor am sut i rannu gwybodaeth er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc. Ond nid yw gwasanaethau i gefnogi plant mewn llysoedd yn cefnogi POB plentyn a pherson ifanc yn hysbysu, ac nid oes unrhyw gynllun clir ynghlyn â sut i wella hyn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dweud wrth gynghorau lleol i ddatblygu hyfforddiant ar gyfer pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, ond nid yw hi'n glir sut bydd hyn yn gweithio.

**Yn 2007, mae'r Cyrff Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan weithio gyda chynghorau lleol ac eraill:**

- Ddatblygu hyfforddiant ar gyfer pob person sy'n gweithio gyda phlant ynghlyn â sut i amddiffyn plant a phobl ifanc.
- Cefnogi pob plentyn a pherson ifanc sy'n rhoi tystiolaeth mewn llysoedd.



## Plant carcharorion

**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig: DDIM BYD am blant a phobl ifanc sydd â rhieni mewn carchar. Ond mae blant a phobl ifanc sydd â rhieni mewn carchar yn cael eu hamddiffadu o'u hawliau.**

Mae CCUHP yn dweud na ddylech gael eich gwahanu oddi wrth eich rhieni! heblaw bod hynny er eich lles. Ond mae llawer o blant wedi eu gwahanu oddi wrth rieni sydd mewn carchar.

Os oes rhaid i chi gael eich gwahanu oddi wrth eich rhieni!, mae gennych hawl i gael cyswilt rheolaidd â nhw, a rhaid i'r system cyflawnder troseddol helpu teuluoedd carcharorion. Ond:

- Yn y pedwar carchar yng Nghymru, nid oes cyflusterau addas ar gyfer ymweiliadau gan blant. Nid oes un carchar i fenywod yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod mamau sy'n cael eu cadw mewn carchar, fel arfer, yn bell iawn oddi wrth eu plant.

**Yn 2007, mae'r Cyrtff Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda chynghorau lleol ac eraill:**

- Sicrhau bod plant carcharorion yn un o'r blaenoriaethau y mae angen iddyn nhw eu helpu.
- Rhoi arian tymor-hir i sefydlu gwasanaethau ar gyfer plant carcharorion, mewn carchardai ac yn y gymuned.

OREN



## Hawliau sifil a rhyddid

Erthyglau CCUHP: 7, 8, 13, 14,15,16,17 a 37a

Mae'r hawliau hyn yn ymwneud â gwneud yn siŵr fod plant a phobl ifanc yn cael eu parchu fel unigolion. Bod ganddynt yr hawl i wybod am eu teulu, a chael cyswilt â nhw, a bod eu diwylliant yn cael ei barchu. Mae gennych hefyd hawliau eraill, fel:

- Cael gafael ar wybodaeth a'i rhannu.
- Rhyddid i lefaru a chredu.
- Cael parch i'ch preffatrwydd a'ch urdas.
- Amddiffyniad rhag ymosodiadau a rhag cael eich cosbi mewn ffyrdd creulon.



COCH

**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig: Rhaid i Lywodraeth y D.U., ar unwaith, ei gwneud hi'n anghyfreithlon i blant a phobl ifanc gael eu cosbi'n gortfrol yn y teulu neu yn unrhyw le arall.**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cytuno â'r Cenhedloedd Unedig y dylai taro plant a phobl ifanc fod yn erbyn y gyfraith.

Ond NID yw Llywodraeth y D.U. wedi newid y gyfraith i rwystro rhieni rhag taro plant. Maent dal yn cael gwneud hynny os credir bod hynny'n "rhesymol". Mae hyn yn golygu bod oedolion wedi eu gwarchod yn well rhag cael eu taro na plant.

**Yn 2007, mae'r Cyfrif Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth y D.U.:**

- Wneud cyfreithiau newydd sy'n rhoi gwarchodaeth gyfartal i blant a phobl ifanc rhag trais.



GWYRDD



Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud llawer o bethau da i hyrwyddo ffyrdd gwell a di-drais o ddisgyblu plant a phobl ifanc:

- Maen nhw'n rhoi arian i grwp sy'n gweithio i newid y gyfraith am daro plant.
- Maen nhw wedi cynhyrchu llyfryn ar gyfer rhieni i'w helpu i ddeall y ffyrdd gwahanol y gall rhieni eu defnyddio i ddisgyblu eu plant heb eu taro.

Ond tra bydd gyfraith y D.U. yn aros yr un fath, mae'n anodd gwneud unrhyw gynnydd.

Mae'r arian sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w roi i'r grwp sy'n ceisio newid y gyfraith yn dod i ben ym mis Mawrth 2008.

**Yn 2007, mae'r Cyfrif Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

- Greu eu hymgyrch eu hun, a chynnwys rhieni mewn addysg gyhoeddus yn erbyn taro plant.



**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig: Gwnech fwy i wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael llais ym mhob penderfyniad sy'n effeithio arny'n nhw mewn cymdeithas.**

Mae plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael mwy o lais mewn penderfyniadau a chyfle i ddylanwadu ar beth mae'r llywodraeth yn ei wneud.

Cyfranogaeth yw'r gair am hyn.

Mae yna:

- Weindog yng Nghymru sy'n gyfrifol am gyfranogaeth plant a phobl ifanc.
- prosiectau cyfranogaeth cenedlaethol.
- mwy o ffyrdd i gael plant a phobl ifanc i gymryd rhan.
- y Ddraig Ffyncl. Mae yna hefyd Fforymau Ysgol a Chynghorau Ysgol wedi eu sefydlu ledled Cymru.

Ond mae angen gwneud mwy. Mae arian y dyfodol yn ansicr, ac mae angen mwy o hyfforddiant ar weithwyr.

**Yn 2007, mae'r Cyrff Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

- Wneud cyfreithiau newydd a rhoi arian tymor hir er mwyn i brosiectau cyfranogaeth allu cynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Archwilio pob polisi a chynllun i wneud yn siŵr eu bod yn cynnwys cyfranogaeth pob plentyn a pherson ifanc.
- Gwneud yn siŵr bod pawb yn deall pam fod cyfranogaeth yn hawl bwysig a hyfforddi pob gweithiwr i barchu hyn.




OREN

# Egwyddorion Cyffredinol

Erthyglau CCUHP: 2, 3, 6, 12

- Mae'r hawliau hyn yn bodoli er mwyn gwneud yn siŵr bod y Confensiwn yn cael ei ddefnyddio'n dda.
- Mae'n nhw'n dweud:
- Dylai pob plentyn gael yr holl hawliau sydd yn CCUHP.
- Yr elfen bwysicaf bob tro yw'r hyn sydd orau er lles y plentyn.
- Dylai pob plentyn allu goroesi a datblygu i'w botensial llawn.
- Dylai pob plentyn gael llais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

**Gwahaniaethu**



**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig: Edrychwch i mewn i wahaniaethu, a dyfeiswch ffyrdd o roi stop arno.**

Mae gwahaniaethu'n cynnwys pethau fel pam y mae plant a phobl ifanc:

- heb neb i wrando arnyn nhw
- yn cael bai ar gam
- yn methu mynd mewn i lefydd am eu bod yn rhy ifanc
- yn cael eu hanwybuddu gan wasanaethau.

Mae gwahaniaethu fel hyn yn dal i ddigwydd yn y D.U. Mae plant a phobl ifanc hefyd yn gallu dioddef gwahaniaethau yn eu herbyn os ydyn nhw'n perthyn i grwp y mae eu hawliau yn cael eu hanwybuddu. Mae hyn yn gallu digwydd oherwydd pethau fel hiliaeth, neu oherwydd eu bod yn sal, yn anabl, yn ddigartref neu'n dlawd.

**Yn 2007, mae'r Cyfrif Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth y D.U.:**

- Wneud yn siŵr bod plant ddim yn dioddef gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd eu hoed


**Yn 2007, mae'r Cyfrif Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth y D.U.:**

**Yn 2007, mae'r Cyfrif Anllywodraethol yn credu y dylai'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:**

- Gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn gallu cael gwasanaethau cyfartal, o safon uchel.



**Buddiannau gorau plant**




**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig: Dylai cyfreithiau'r D.U. bob amser roi'r pwys mwyaf ar beth sydd orau i blant a phobl ifanc, yn enwedig gyda phlant sy'n dioddef o effeithiau trosedd a mewtudo.**

Mae'r system cyfiawnder troseddol a chyfrith fewnfwyr yn dal i anwybuddu weithiau beth sydd orau i blant a phobl ifanc. Er enghraifft:

- Mae plant o'r adeg y maent yn 10 oed yn gallu cael eu cyhuddo a'u herlyn am drosedd pan fyddant yn torri'r gyfrith.
- Mae gormod o blant a phobl ifanc yn cael eu tynnu i'r system cyfiawnder troseddol pan fyddant yn rhy ifanc.
- Mae ASBOs (gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymerthasol) yn mynd yn groes i les gorau plentyn a hawliau eraill CCUHP.
- Mae beth sydd orau i blant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches weithiau'n cael ei anwybuddu, hyd yn oed pan fyddant wedi dod o sefyllfaoedd perlyglus.

**Yn 2007, mae'r Cyfrif Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth y D.U.:**

- Newid y cyfreithiau am droseddau a mewtudo i roi iddynt yr un sail â hawliau'r plentyn.
- Ystyried darparu gwarcheidiawid (rhywun sy'n gallu gweithredu fel rhiant ac edrych ar ôl eich buddiannau) ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches sydd yma ar eu pen eu hunn.



**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig: Gwneuch yn siŵr bod rhywun annibynnol yn archwilio hawliau plant a phobl ifanc.**

Mae Comisiynydd Plant Cymru'n gwneud hyn, ond nid oes pŵer ganddo i archwilio holl hawliau plant. Rhaid newid hyn.

Dylai arian Comisiynydd Plant Cymru fod yn fwy annibynnol hefyd.

**Yn 2007, mae'r Cyff Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth y D.U.:**

- Ganiatáu i Gomisiynydd Plant Cymru archwilio HOLL hawliau yr HOLL blant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru fel arfer.

**Yn 2007, mae'r Cyff Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth Cymru:**

- Wneud Comisiynydd Plant Cymru yn annibynnol o Lywodraeth.



**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig: Gwneuch yn siŵr bod pawb yn gwybod am CCUHP.**

- Mae rhywfaint o wybodaeth wedi ei dosbarthu am hawliau plant a phobl ifanc, ond mae angen mwy.
- Dim ond 8% ohonoch chi sydd wedi cael eich dysgu am hawliau yn yr ysgol.
- Dydych chi llawer o weithwyr profesiynol yng Nghymru ddim yn deall hawliau plant yn glir.
- Hefyd, does dim digon o gyrsiau am hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru ar gyfer gweithwyr.

**Yn 2007, mae'r Cyff Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth Cymru:**

- Ddwyfaisio ffordd o ddwneud wrth bawb yng Nghymru am hawliau plant, a thalu am y ffordd honno.
- Gwneud yn siŵr bod pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc wedi derbyn hyfforddiant am hawliau plant.






## Sut y dylai Llywodraethau wneud yn siwr bod eich hawliau chi'n digwydd Erthyglau CCUHP: 4, 42 a 44.6

Dylai llywodraethau wneud yn siwr bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu hawliau. Mae'r Cenhedloedd Unedig yn galw'r rhain yn 'Fesurau Gweithredu Cyffredinol'.

**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig: Gwneuch hawliau CCUHP yn rhan o gyfraith y D.U.**



• CCUHP yw sail gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru (sy'n gwneud yn siwr eich bod yn cael eich hawliau).

Ond mae angen i Llywodraeth Cynulliad Cymru geisio gwneud yn siwr bod pob gweithiwr profesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru yn deall CCUHP ac yn ei ddefnyddio fel canllaw.


**Yn 2007, mae'r Cyfrif Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

- Ddefnyddio ei bwerau newydd i gryfhau hawliau plant yng Nghymru.

Er bod Cymru wedi dweud wrthyn nhw am wneud hynny, mae'n ymddangos nad yw llywodraeth y D.U. eisieu cynnwys hawliau plant yn ei holl gyfreithiau.

**Yn 2007, mae'r Cyfrif Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth y D.U.:**

- Wneud CCUHP yn rhan o gyfraith y D.U.




Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud hyn unwaith yn barod. Mae 30% o'i harian yn cael ei wario ar blant a phobl ifanc.


**Yn 2007, mae'r Cyfrif Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

- Bob amser ei gwneud hi'n glir faint o arian sy'n cael ei wario ar blant a phobl ifanc.
- Dangos sut maen nhw'n gwario'r arian ar blant a phobl ifanc.

**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig: Dangoswch faint o arian sy'n cael ei wario ar blant a phobl ifanc er mwyn i ni ddweud a yw'r D.U. yn gwneud ei gorau.**



**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig: Rhaid i'r D.U. gael gwared â'i neilltadau.**



Pan lofnododd llywodraeth y D.U. CCUHP wnaethon nhw ddim cytuno i bopeth. Fe wnaethon nhw wrthod rhoi rhai hawliau penodol i rai blant a phobl ifanc. Mae'r pethau y gwnaethon nhw eu gwrtod yn cael eu galw'n "neilltadau".


Mae'n dda bod y D.U. yn bwriadu newid un neilltad, set yr un sy'n gadael i blant a phobl ifanc gael eu rhoi mewn carchar oedolion, ond mae angen iddyn nhw wneud hyn mor gyflym â phosibl!

Ond i blant a phobl ifanc sy'n geiswyr lloches ac sydd ddim yn ddinasyddion y D.U., mae pethau'n mynd yn waeth yn lle'n well.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dweud, pe bai ganddyn nhw'r pŵer, y bydden nhw'n gwneud yn siwr bod plant a phobl ifanc sy'n geiswyr lloches yn cael eu hawliau.

**Yn 2007, mae'r Cyfrif Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth y D.U.:**

- Roi trefn ar ei neilltadau yn syth.




Mae gan Gymru Weinidog Plant sy'n gyfrifol am eich hawliau a phwylligora'u sy'n gwneud yn siwr bod pobl yn deall bod hawliau'n bwysig.

Ond, nid yw gwahanol elfennau o'r llywodraeth yng Nghymru bob amser yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gefnogi hawliau plant.

**Yn 2007, mae'r Cyfrif Anllywodraethol yn credu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

- Roi mwy o bwerau a chefnogaeth i'r Gweinidog a'r Pwylligora'u.

**Yn 2002, dywedodd y Cenhedloedd Unedig: Gwneuch hi'n amlwg pwy sy'n gyfrifol am hawliau plant yn y wlad gyfan.**



## Beth sydd yn y crynodeb hwn?

Ym mhob pennod, fe welwch beth ddwywedodd arbenigwyr y Cenhedloedd Unedig bum mlynedd yn ôl a rhywfaint o wybodaeth am beth sydd wedi digwydd ers hynny.

Os hoffech chi wybod mwy am unrhyw beth, gallwch ddarllen yr adroddiad hirach. Fe welwch chi hyn ar wefan Achub y Plant (gweler tudalen 20 am fanylion).

Fe welwch oleuadau traffig sy'n dangos sut mae'r llywodraeth yn gwneud. Os yw'r golau'n goch, rydyn ni'n bryderus iawn. Os yw'n oren, mae'r llywodraeth wedi gwneud rhai newidiadau da, ond nid yw'r newidiadau hyn wedi dechrau cael effaith ar fywydau plant eto. Os yw'n wyrdd, rydyn ni'n credu bod y llywodraeth yn gwneud tro da iawn o wait!

Mae Cymru neu D.U. (y Deyrnas Unedig) wedi ei ysgrifennu ar bob golau traffig. Os yw'n dweud Cymru, mae'n golygu mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am wneud newidiadau i blant a phobl ifanc, ac os yw'n dweud D.U., mae'n golygu mai Llywodraeth y D.U. sy'n gyfrifol. Os nad oes unrhywbeth wedi'u ysgrifennu am hyn, golygai ei fod yn gyfrifoldeb cyfrannol.

Dyma engrafft:



Mae'r adroddiad hwn hefyd yn dweud beth mae'r Cyrrff Anllywodraethol yn credu ddylai llywodraethau Cymru a'r D.U. **ei wneud nesaf** i wneud yn siwr bod hawliau plant wir yn digwydd.

## Cyflwyniad

### Beth mae hyn oll yn ei olygu?

#### Hawliau!

Mae gan bob person hawliau, ac mae hynny'n cynnwys plant a phobl ifanc!

**Hawliau** yw pethau y mae gennych hawl i'w cael. Er enghraifft, mae gennych hawl i fywyd a hawl i addysg. Mae hawl gennych hefyd i gael eich cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi.

**Mae'r Cenhedloedd Unedig** yn grŵp y mae holl lywodraethau'r byd wedi ymuno ag ef. Ei nod yw helpu gwledydd y byd i weithio gyda'i gilydd.

Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi ysgrifennu rhestr o hawliau plant, a gelwir hon yn **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** neu **CCUHP** yn gryno. Mae pob un o wledydd y byd - heblaw dwy (UDA a Somalia) - wedi addo y caiff plant a phobl ifanc yr hawliau hyn.

Bob pum mlynedd, mae llywodraethau'r byd yn gortod dweud wrth y Cenhedloedd Unedig pa mor dda maen nhw'n parhau hawliau plant yn eu gwlad. Bydd 18 o arbenigwyr yn archwilio beth mae'r llywodraeth yn ei wneud. Y tro diwethaf i'r arbenigwyr archwilio beth oedd Llywodraeth y D.U. yn ei wneud oedd 2002, a'r tro nesaf fydd 2008.

Mae'r arbenigwyr yn cael un adroddiad gan lywodraeth y D.U. (gyda darnau ar wahân am Gymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon). Maen nhw hefyd yn cael adroddiad gan sefydliadau sydd ddim yn rhan o'r llywodraeth (mae'r rhain yn cael eu galw'n gyrrff anlywodraethol) a gan fudiadau pobl ifanc (fel y Ddraig Ffynici, Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru). Mae adroddiadau hefyd yn gallu cael eu hanfon gan bobl annibynnol (Comisiynwyr Plant) ym mhob gwlad, sy'n gallu gwneud yn siwr bod plant a phobl ifanc yn cael eu hawliau.

Pan fydd arbenigwyr y Cenhedloedd Unedig wedi darllen yr holl adroddiadau hyn a gwrandao ar bobl, maen nhw'n ysgrifennu adroddiad o'r enw **Sylwadau Tertynol**. Mae hwn yn dweud pa mor dda maen nhw'n meddwl bod y llywodraeth yn gwneud cyn belled, a beth mae angen iddyn nhw ei wneud.

Rydych yn awr yn darllen crynodeb o adroddiad **Cyrrff Anlywodraethol Cymru** a gaiff ei anfon at y Cenhedloedd Unedig. Gelwir y grŵp o sefydliadau anlywodraethol a ysgrifennodd y prif adroddiad yn **Grŵp Monitro CCUHP Cymru**.

2	<b>Cyflwyniad</b>	
4	<b>Sut y dylai llywodraethau wneud yn siwr bod eich hawliau chi'n digwydd</b>	
6	<b>Egyddorion Cyffredinol</b>	Gwahaniaethu Buddiannau gorau Cyfranogaeth
8	<b>Hawliau Sifil a Rhyddid</b>	Cosb gorffori Plant carcharorion
10	<b>Amgylchedd Teulu a Gofal</b>	Amdiffyn plant Plant sy'n derbyn gofal
12	<b>Iechyd a Les Sylfaenol</b>	Iechyd Pobl ifanc Lesbïaidd, Hoyw a Deurywiol Pobl ifanc anabl Tlodi
15	<b>Addysg, Hamdden a Gweithgareddau</b>	Addysg Chwarae
17	<b>Gwarchodaeth Arbennig</b>	Plant sy'n ceisio lloches Teithwyr o dras Romani, Gwyddelig a Sipsiwn Cam-fanteisio'n rhywiol Plant a throsedd

## Adroddiad yw hwn am Hawliau Plant yng Nghymru

Mae'n grynodeb ar gyfer pobl ifanc o adroddiad hirach o'r enw Aros, edrych, gwranddo. Bydd y ddau adroddiad yn cael eu hanfon i'r Cenhedloedd Unedig, er mwyn iddyn nhw gael gwybod am hawliau plant yng Nghymru.

Ac mae gan Gymru lawer i fod yn falch ohono! Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn edrych ar blant fel dinasyddion sydd â hawliau a safbwyntiau y mae angen rhoi sylw iddynt 'nawr!



Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dyfeisio llawer o gynlluniau da i wella bywydau plant a phobl ifanc, ond mae angen gwneud mwy er mwyn i'r cynlluniau hynny ddigwydd. Mae hawliau rhai grwpiau o blant a phobl ifanc dal heb eu hamddiffyn na'u parhau.

### Ydych hawliau chi'n cael eu parchu?

Darllenwch ymlaen er mwyn dysgu mwy

Keith Towler

Cadeirydd Grŵp Monitro CCUHP Cymru a chyfarwyddwr Achub y Plant Rhaglen Cymru



**Cyfieithwyd o'r fersiwn oedolion  
gan Trudy Aspinwall a Cath Larkins  
a golygwyd gan Raglen Achub  
y Plant Cymru.**

**Cyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 2007  
© Cronfa Achub y Plant 2007  
Rhif Cwmni Cofrestredig 178159**

Mae yna hawffraint ar y cyhoeddiad yma, gellir ei ail-gynhyrchu drwy unrhyw ddull heb ffi na chaniatâd am ddiweddion addysgol, ond nid i'w ail-werthu. Er mwyn copïo'r ddogfen ar gyfer unrhyw ddiben arall, rhaid derbyn caniatâd ysgrifenedig gan y cyhoeddwr, ac mae'n bosib y bydd tal yn daladwy.

Gwadiad: Mae'r hyn sy'n cael ei fnyegi yn yr adroddiad hwn yn farn y cyfrannwr, felly nid yw'r wybodaeth o angenrheidrwydd yn gynrychioli barn neu bolisiau Achub y Plant y DU.  
Cynlluniwyd gan: Photographics 01792 550583 Darlun: Les Evans 01792 427226



# Aros, edrych, gwranddo: sut mae gwreiddu hawliau plant yng Nghymru.

Crynodeb o adroddiad y cyrff anillywodraethol  
i'r Cenhedloedd Unedig am Hawliau Plant yng  
Nghymru.

